**Comisiynydd Heddlu a Throseddu**

**Dyfed-Powys**

# Adroddiad ar Hapsamplu Cwynion

**Chwarter 2: Gorffennaf - Medi 2024**

Cynnwys

Cyflwyniad ................................................................ **Error! Bookmark not defined.**

Ystadegau Swyddfa Annibynnol Cwynion yr Heddlu **Error! Bookmark not defined.**

Crynodeb o'r canfyddiadau ..................................... **Error! Bookmark not defined.**

Canfyddiadau Hapsamplu ........................................ **Error! Bookmark not defined.**

Sylwadau'r Adran Safonau Proffesiynol .................. **Error! Bookmark not defined.**

## Cyflwyniad

Cynhaliwyd cyfres o hapsamplau o achosion o gwynion gan Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu (SCHTh) rhwng mis Gorffennaf a mis Medi 2024.

Adolygodd SCHTh gyfanswm o 15 o achosion o gwynion caeedig a ddewiswyd ar hap yr ymdriniwyd â hwy gan yr Adran Safonau Proffesiynol rhwng mis Ebrill 2024 a mis Mehefin 2024. Prif ddiben y gwaith craffu hwn yw adolygu'n annibynnol bod y broses o gofnodi ac ymdrin â chwynion yn cydymffurfio â'r canllawiau a nodir gan Swyddfa Annibynnol Cwynion yr Heddlu a bod y gwasanaeth a ddarperir i'r achwynydd yn rhesymol a chymesur.

Manylir ar gefndir a diben y gwaith craffu ar hapsamplu, ynghyd â sut y cynhelir hampsamplu, yn y Fframwaith Craffu ar Gwynion sydd wedi'i gyhoeddi ar wefan SCHTh.

Gwnaeth Deddf Plismona a Throseddu 2017 a'r rheoliadau ategol newidiadau sylweddol i systemau cwynion a disgyblu'r heddlu. Cyflwynwyd nifer o newidiadau gyda'r nod o sicrhau system gwyno sy'n canolbwyntio mwy ar y cwsmer ym mis Chwefror 2020.

Mae'r system gwyno wedi datblygu i gwmpasu ystod ehangach o faterion. Yn flaenorol, roedd y ffordd y diffiniwyd y term 'cwyn' yn golygu bod angen iddo ymwneud ag ymddygiad swyddog unigol. Nawr, gellir gwneud cwyn am ystod llawer ehangach o faterion, gan gynnwys y gwasanaeth a ddarperir gan yr heddlu fel sefydliad. Bwriad hyn yw gwella mynediad i system gwyno'r heddlu.

Mae Swyddfa Annibynnol Cwynion yr Heddlu yn disgwyl i heddluoedd ystyried yr wybodaeth y maent yn ei chadw am gwynion gan gadw bwriad y diwygiadau mewn golwg – rhwymedigaeth gadarnhaol i wella mynediad a chasglu gwybodaeth sy'n galluogi heddluoedd a chyrff plismona lleol i ddysgu o gwynion a materion eraill.

## Ystadegau Swyddfa Annibynnol Cwynion yr Heddlu

Bob chwarter, mae Swyddfa Annibynnol Cwynion yr Heddlu yn casglu data wrth Heddlu Dyfed-Powys am y ffordd maen nhw'n trin cwynion. Mae Swyddfa Annibynnol Cwynion yr Heddlu'n defnyddio'r data hwn i gynhyrchu bwletinau gwybodaeth. Mae'r rhain yn nodi perfformiad yn erbyn nifer o fesurau ac yn cymharu data pob heddlu gyda chyfartaledd eu heddlu tebycaf a'r canlyniadau cyffredinol ar gyfer pob heddlu.

Mae'r tabl isod yn cyflwyno crynodeb o'r ffordd y cafodd honiadau eu trin. Mae penderfyniad ynghylch honiad yn cael ei gofnodi ar gyfer pob honiad a gwblhawyd. Mae'r penderfyniad ynghylch honiad yn adlewyrchu sut mae'r achos cwyn wedi'i drin, gyda phenderfyniadau gwahanol ar gael ar gyfer y ffyrdd gwahanol o drin. Bydd y penderfyniadau ynghylch honiadau a'r camau gweithredu dilynol sydd ar gael yn dibynnu ar ddau beth: yn gyntaf, pa un ai a yw'r achos cwyn wedi'i drin tu allan i, neu o dan, Atodlen 3; ac yn ail, y ffordd o drin lle y mae wedi'i ymdrin o dan Atodlen 3.

| How allegations were handled (Year to date) | Force No. | Force % | MSF Average No. | MSF Average % | National No. | National % |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Under Schedule 3 investigated (not subject to special procedures) | 5 | 2 % | 22 | 6 % | 4,102 | 11 % |
| Under Schedule 3 investigated (subject to special procedures) | 0 | | 4 | 1 % | 425 | 1 % |
| Under Schedule 3 - not investigated | 107 | 46 % | 238 | 60 % | 17,104 | 45 % |
| Outside of Schedule 3 | 122 | 52 % | 121 | 33 % | 16,487 | 43 % |
| **Total** | **234** | **100 %** | **385** | **100 %** | **38,118** | **100 %** |

Mae cwynion yr ymdriniwyd â nhw o dan atodlen 3 Deddf Diwygio'r Heddlu 2002 yn gymwys i gael eu cwyn wedi'i hadolygu gan Gomisiynydd yr Heddlu a Throseddu neu Swyddfa Annibynnol Ymddygiad yr Heddlu.

Fodd bynnag, nid yw cwynion sy'n cael eu trin yn anffurfiol tu allan i atodlen 3 yn gymwys i gael adolygiad o'u cwyn.

Rhaid trin cwynion yr ymdrinnir â nhw tu allan i ofynion Atodlen 3 gyda'r bwriad o'u datrys i fodlonrwydd yr achwynydd. Mae trin cwyn tu allan i ofynion Atodlen 3 yn rhoi cyfle i fynd i'r afael yn brydlon â'r pryderon a godwyd gan achwynydd. Nid oes angen ymholiadau manwl er mwyn mynd i'r afael â rhai cwynion. Er enghraifft, efallai bod yr achwynydd ond eisiau esboniad, neu i'w bryderon cael eu nodi a'u pasio ymlaen. Gall trin cwynion o'r fath tu allan i Atodlen 3, yn brydlon, fod y ffordd fwyaf effeithiol, effeithlon a buddiol o ddatrys y gŵyn. Gall sicrhau'r achwynydd bod ei bryderon wedi'u clywed a'u trin, ac o bosibl rhoi cyfle i'r heddlu ddysgu (ac unrhyw unigolion cysylltiedig, os yn briodol).

Mae'r tabl yn dangos bod 52% o'r cwynion wedi'u trin tu allan i atodlen 3. O ganlyniad, bydd y cylch hwn o hap samplu'n ystyried y cwynion yr ymdriniwyd â nhw tu allan i atodlen 3 i ystyried y ffordd y cawsant eu trin.

## Crynodeb o'r canfyddiadau

### Cadarnhaol

Nododd yr hap sampl arfer gorau ar gyfer achos lle'r oedd y triniwr cwyn wedi rhoi diweddariad i'r Adran Safonau Proffesiynol am ganlyniad trin y gŵyn gyda cham gweithredu a gymerwyd ar gyfer cwyn yr ymdriniwyd â hi'n anffurfiol.

Ni nodwyd unrhyw bryderon o gwmpas amseroldeb trin cwyn.

### Maes ar gyfer Gwella

Dylai goruchwylwyr roi diweddariad i'r Adran Safonau Proffesiynol am unrhyw gam gweithredu/canlyniad cwyn maen nhw wedi ymdrin â hi'n anffurfiol tu allan i atodlen 3.

Yn ogystal, mae angen cysondeb o ran cadw cofnodion. Mewn rhai achosion, roedd hi'n anodd nodi beth oedd canlyniad y gŵyn, neu pa un ai a oedd wedi'i chwblhau.

**Gorffennaf**

| Rhif yr Achos | Rhif Cyfeirnod y Gŵyn | Crynodeb o'r Gŵyn | Math o Drin | Arsylwadau SCHTh |
|---|---|---|---|---|
| 1 | Achos 1 | Mae'r achwynydd yn anfodlon bod yr Heddlu wedi mynd i'w eiddo yn dilyn galwad 999 a dderbyniwyd ac yn honni mai camgymeriad oedd yr alwad a bod swyddogion wedi tarfu, gan achosi gofid i'w faban 5 mis oed. | Tu Allan i Atodlen 3 | Mae archwiliad manwl o'r camau a gymerwyd i fynd i'r afael â'r gŵyn a chofnodion manwl wedi'u darparu gan swyddogion yn esbonio eu rhesymeg a'u pryderon bod hanes o drais domestig, gyda darn ffilm camera corff ategol.<br><br>Yn gyffredinol, ymdriniwyd â'r gŵyn yn dda ac yn amserol.<br><br>Mae gan yr achwynydd hanes blaenorol o drais domestig. |
| 2 | Achos 2 | Roedd yr achwynydd yn rhan o ddigwyddiad lle y bu bron i gar fwrw i mewn iddo ef a'i deulu. Ar ôl adrodd am hyn wrth yr heddlu, pennwyd swyddog i ymchwilio. Mae'r achwynydd yn anfodlon bod yr achos hwn wedi'i gau heb | Tu Allan i Atodlen 3 | Nid yw'n glir beth oedd canlyniad y gŵyn hon. Dywedodd yr Adran Safonau Proffesiynol y byddai'r gŵyn yn cael ei hanfon at Oruchwylydd ac y byddai esboniad yn cael ei roi i'r achwynydd, ond nid oes tystiolaeth fod hyn wedi'i wneud. |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | fod camau pellach yn cael eu cymryd a bod y swyddog heb roi llawer o wybodaeth a heb fod mewn cysylltiad rheolaidd. | | |
| 3 | Achos 3 | Mae'r achwynydd yn ddioddefydd trais domestig. Symudodd y swyddog a oedd yn ymdrin â'r achos ac fe'i bennodd i swyddog arall. Mae'r achwynydd yn honni nad yw wedi clywed unrhyw beth wrth y swyddog newydd hyd yn oed ar ôl i eiriolwr fynd ar ôl ymateb. | Tu Allan i Atodlen 3 | Cafodd ei datrys yn gyflym, a chysylltodd goruchwylydd â'r achwynydd. |
| 4 | Achos 4 | Arestiwyd yr achwynydd a rhoddodd ganiatâd i'r allweddi i'w chartref gael eu rhoi i'w theulu er mwyn iddynt fynd mewn i'r cartref. Mae'r achwynydd yn honni bod yr Heddlu wedi gwrthod rhoi'r allweddi i'w mab, a phan gyrhaeddodd adref, roedd y cŵn bach wedi marw. | Tu Allan i Atodlen 3 | Ceisiodd yr Adran Safonau Proffesiynol gysylltu â'r achwynydd drwy e-bost a thrwy lythyr, ond ni chafwyd ymateb. Gan hynny, ni chymerwyd camau gweithredu pellach. |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| 5 | Achos 5 | Cafodd yr achwynydd ei frathu gan gi ar draeth. Mae'r achwynydd yn dweud bod yr ymosodiad wedi digwydd flwyddyn yn ôl ond eto nid oes canlyniad gan yr heddlu o hyd. | Tu Allan i Atodlen 3 | Nid yw'n glir pa un ai a ddarparwyd cydnabyddiaeth? – cadarnhaodd yr Adran Safonau Proffesiynol nad oedd cydnabyddiaeth wedi'i hanfon gan fod yr arolygydd wedi ymateb yn gyflym i'r achwynydd.<br><br>Rhoddodd y Rhingyll ymateb i'r Adran Safonau Proffesiynol, ond doedd dim tystiolaeth bod hyn wedi'i anfon i'r achwynydd?<br><br>Gwnaed ymholiadau gyda'r Adran Safonau Proffesiynol, a gadarnhaodd bod yr Arolygydd wedi cysylltu â'r achwynydd ar 23 Mehefin. Nid ydynt wedi derbyn unrhyw ohebiaeth bellach gan yr achwynydd ers hynny. |

**Awst**

| | Rhif yr Achos | Rhif Cyfeirnod y Gŵyn | Crynodeb o'r Gŵyn | Math o Drin |
|---|---|---|---|---|
| 1 | Achos 1 | Anghydfod mewn perthynas â throseddau amgylcheddol ar gyfer gwaith ar simnai. | Tu Allan i Atodlen 3 | Ymateb cyflym gan yr Adran Safonau Proffesiynol. Dim pryderon. |
| 2 | Achos 2 | Aeth i'r ddalfa oherwydd roedd yn credu bod ei angen ar gyfer mechnïaeth. Cafodd ei gynghori gan yr heddlu nad oedd hyn yn ofynnol, felly mae'r achwynydd ar ei golled yn ariannol drwy deithio. | Tu Allan i Atodlen 3 | Nid oes diweddariad wedi'i dderbyn gan y goruchwylydd sy'n ymdrin â'r gŵyn. Nid yw'r canlyniad yn hysbys. |
| 3 | Achos 3 | Mae cyffuriau'n cael eu cymryd yn gyhoeddus nip nepell o'r lle y mae plant yn dod oddi ar y bws. | Tu Allan i Atodlen 3 | Mae'r Adran Safonau Proffesiynol wedi gofyn am ymateb wrth oruchwylydd yn Llandrindod. Ni roddwyd diweddariad i'r Adran Safonau Proffesiynol gan y Rhingyll Heddlu, ond mae'r gŵyn wedi'i chwblhau. |
| 4 | Achos 4 | Oedi o ran dychwelyd eiddo. | Tu Allan i Atodlen 3 | Roedd yn rhaid i'r Adran Safonau Proffesiynol fynd ar ôl y goruchwylydd am ddiweddariad, ond roedd llythyr wedi'i anfon at yr achwynydd. |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| 5 | Achos 5 | Fe wnaeth yr heddlu ddifrodi ffôn a garej wrth gynnal arést. | Tu Allan i Atodlen 3 | Nid yw’n addas ar gyfer y broses gwyno.<br><br>Cafodd ei ailgyfeirio i’r gwasanaethau cyfreithiol ar gyfer y diben o hawlio iawndal. |

**Medi**

| | Rhif yr Achos | Rhif Cyfeirnod y Gŵyn | Crynodeb o’r Gŵyn | Math o Drin |
|---|---|---|---|---|
| 1 | Achos 1 | Gwnaed cwynion amrywiol yn ystod sgwrs ffôn gyda’r achwynydd, heb nodi unrhyw fanylion. Cytunodd yr achwynydd i ymateb drwy e-bost gyda’r manylion. | Tu Allan i Atodlen 3 | Dim ymateb wrth yr achwynydd. |
| 2 | Achos 2 | Adrodd am gyn bartner am aflonyddu. Dim cyswllt na diweddariadau gan yr heddlu. | Tu Allan i Atodlen 3 | Arfer gorau gan fod llwybr archwilio clir ar gyfer ymdrin â’r gŵyn a oedd wedi’i hanfon at oruchwylydd i ymdrin â’r mater yn anffurfiol. Ymddiheurwyd wrth yr achwynydd a datryswyd y mater ar 18/06/2024. |
| 3 | Achos 3 | Pryderon mewn perthynas â’r heddlu’n mynd i gartref yr achwynydd heb reswm. | Tu Allan i Atodlen 3 | Rhoddwyd sicrwydd, esboniad ac ymddiheuriad yn yr e-bost cydnabod gan yr Adran Safonau Proffesiynol. |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| 4 | Achos 4 | Diffyg gweithredu gan yr heddlu mewn perthynas ag aflonyddu/anghydfod rhwng cymdogion. | Tu Allan i Atodlen 3 | Dim gohebiaeth gan yr achwynydd.<br><br>O adolygu'r ymholiadau, ymddengys bod y swyddogion cysylltiedig wedi rhoi diweddariad i'r achwynydd yn anffurfiol. |
| 5 | Achos 5 | Anfodlon ag agwedd swyddog heddlu. | Tu Allan i Atodlen 3 | Mae'r darn ffilm camera corff yn dangos yr achwynydd fel yr ymosodwr a'i fod wedi cyfeirio sylw difrïol o iaith homoffobig at y swyddogion. Ystyriwyd bod y swyddogion wedi ei drin yn gwrtais ac amyneddgar. |

## Sylwadau'r Adran Safonau Proffesiynol

Mae'r Adran Safonau Proffesiynol yn croesawu'r Adroddiad Hap Samplu Cwynion diweddaraf gan Gomisiynydd yr Heddlu a Throseddu, sy'n rhoi adborth defnyddiol a safbwynt newydd. Mae hyn yn fuddiol wrth inni barhau â'n hymrwymiad i ddysgu a gwella.

Croesewir yr adborth, sy'n gadarnhaol yn gyffredinol, ac mae'r Adran Safonau Proffesiynol yn ddiolchgar bod y penderfyniadau a wneir o ran asesu a thrin cwynion wedi'u cydnabod.

Nodir y meysydd sydd angen gwella, ac rydyn ni'n monitro ac yn anelu i wella'n barhaus. Mae'r adran wedi cymryd sylw o'r rhain.